

William Vahey

- Roedd Mr Vahey yn rhedeg 'clwb teithio' mawreddog yn cynnwys teithiau preswyl dramor. Ar dripiâu roedd Mr Vahey yn rhoi cyffuriau i ddioddefwyr, gyda llawer ohonynt ddim yn ymwybodol bryd hynny eu bod wedi cael eu camdrin, a dal ddim yn ymwybodol hyd heddiw.
- Roedd Mr Vahey yn ymwneud â'r rhai mewn grym, gan ei gwneud hi'n anodd herio ymddygiad a allai fod wedi achosi pryder.
- Daeth cam-drin Mr Vahey i'r amlwg ar ôl iddo adael yr ysgol ac roedd yn gweithio dramor, pan wnaeth morwyn ddomestig ddwyn ffon ddata yn cynnwys delweddau o'i gam-drin.
- Roedd disgyblion yn cael eu 'dewis' i fynd ar deithiau, a defnyddiwyd tripiâu fel ffordd i Mr Vahey fod ar ei ben ei hun gyda disgyblion.
- Roedd y disgyblion yn jocio bod Mr Vahey yn "paedo" ond roedd ei boblogrwydd a'i fecanwaith ar gyfer cam-drin bechgyn wedi eu cyffurio yn golygu na wnaed unrhyw honiadau ffurfiol.
- Roedd rhai staff yn bryderus ynghylch ymddygiad Mr Vahey ond yn ei roi i lawr i'w "arddull anffurfiol".
- Nid oedd Mr Vahey yn boblogaidd yn gyffredinol gyda staff ond roedd yn anodd ei herio gan ei fod yn ymwneud â'r rhai mewn grym.
- Roedd y staff dan fygythiad mawr y gallai Mr Vahey ddefnyddio dylanwad ei wraig (roedd ganddi swydd proffil uchel yn y gymuned broffesiynol) i niweidio eu gyrfaedd.

Jeremy Forrest

- Datblygodd pryderon ymhlith staff a oedd yn ymwybodol o "berthynas amhriodol" Mr Forrest gyda'r disgybl ac ef gan ddefnyddio Twitter i gyfathrebu â hi.
- Roedd y staff yn gefnogol ac yn amharod i gredu y gallai Mr Forrest fod yn gamdriniwr.
- Roedd Mr Forrest yn cael ei ystyried yn ddioddefwr o ynfydrwydd y disgybl.
- Nododd athro yn ei ddyddiadur "Trafodwyd gyda Plentyn G i adael llonydd i Mr. K [h.y. Mr. Forrest] yn y coridorau... I ddod o hyd i gariad ei oed ei hun."
- Nid oedd diogelu yn uchel ar yr agenda er gwaethaf achos diweddar o gamdrin yn yr ysgol a arweiniodd at garcharu aelod o staff.
- Cymerwyd ymagwedd "pen yn y tywod" at ddiogelu ac roedd rhagdybiaeth bod honiadau'n ffug.
- Roedd diwylliant sy'n canolbwyntio ar oedolion lle nad oedd llais disgyblion yn cael eu clywed.
- Roedd y disgybl (a gafodd ei gipio gan Mr Forrest wedi hynny) yn cael ei ystyried fel y broblem.

Nigel Leat

- Adroddwyd am 30 achos o ymddygiad amhriodol rhwng 1999-2010, yn amrywio o faterion lefel isel yn ymwneud â chynnwys gwersi, i gyffwrdd disgyblion yn amhriodol. Roedd yn "wybodaeth gyffredin" bod Mr Leat wedi gwneud jôcs amhriodol.
- Nid oedd staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu ac nid oedd hyfforddiant mewnol wedi eu galluogi i adnabod Mr Leat fel camdriniwr.
- Gwnaeth staff di-broffesiynol gwynion, er enghraifft, bod gan Mr Leat blentyn ar ei ben-glin, a chael codiad wrth ddal plentyn.
- Yr unig weithred mewn perthynas ag unrhyw un o'r pryderon hyn oedd un rhybudd llafar.

Robert Stringer

- Roedd y pennaeth a chydweithwyr gweld Mr Stringer yn "anodd."
- Anogodd Mr. Stringer ofn mewn staff trwy ei ymddygiad, e.e., gweiddi arnynt.
- Mynegodd staff bryderon am berthynas Mr. Stringer â disgyblion yn y clwb drama.
- Cyfeiriwyd yn ddienw at y pennaeth.
- Roedd pryderon a adroddwyd yn cynnwys lluniau amheus ar gyfrifiadur Mr. Stringer ac ef yn dangos DVD â chyfyngiad oed 15 gyda golygfeydd rhyw penodol i ddisgyblion blwyddyn 5 (9 oed). Adroddwyd y pryder olaf hwn gan riant plentyn arall.
- Dywedodd dau athro a fynychodd hyfforddiant recriwtio diogel wrth y pennaeth fod Mr Stringer yn "ticio holl focsys yr ymarfer [hyfforddiant] *Profile of an abuser*".
- Yn hysbys fod ganddo ffefrynnau.
- Roedd y disgyblion yn ymwybodol fod gan Mr. Stringer fynediad i gyllell fawr a ddefnyddid mewn cynyrchiadau drama.
- Roedd y disgyblion yn ceisio ennill statws drwy gael eu dewis am rolau yn y clwb drama.
- Dywedwyd wrth y disgyblion y byddai Mr Stringer yn mynd i'r carchar pe baent yn datgelu ac ni fyddai unrhyw un wedyn yn gallu gofalu am ei wraig anabl.

Vanessa George

- Nododd staff newidiadau o fis Rhagfyr 2008 pan ddechreuodd Mrs. George siarad am erlid dynion a chyfarfyddiadau rhywiol.
- Nodwyd nad oedd Mrs. George yn defnyddio ardaloedd newid clwt cyffredinol ond yn defnyddio ciwbicl gyda drws llawn. Cyfiawnhaodd Mrs. George hyn ar y sail na allai blygu i newid clytiau.
- Roedd swmp corfforol Mrs. George yn rhwystro'r llinell golwg o'i gweithgareddau.
- Roedd sefyllfa Mrs George o bŵer o fewn y grŵp staff yn golygu er bod staff yn dod yn fwyfwy pryderus am ei hiaith amrwd, trafod perthynas all-briodasol a dangos delweddau anwedus o oedolion ar ei ffôn, roeddent yn teimlo na allent ei herio.
- Mae'n bosibl bod staff yn credu eu bod wedi "caniatáu" i'r cam-drin ddigwydd gan eu bod wedi cael eu tynnu i mewn i'w thrafodaethau am ymddygiad rhywiol oedolion ond nad oeddent wedi gwybod sut i godi hyn gydag eraill.
- Disgrifiwyd myfyriwr ar leoliad fel un a oedd yn ofn rheolwr y feithrinfa'n ofnadwy, a allai fod wedi bod yn arwydd o ddiwylliant y feithrinfa.